**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qa1317543

Cllr Hugh Evans
Leader of Denbighshire County Council
County Hall
Wynnstay Road
Ruthin
LL15 1YN

29 Mawrth 2018

Annwyl Cyngh Evans,

**Parthed: Adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl)**

Fis Rhagfyr y llynedd ysgrifennais atoch yn eich gwahodd i gyflwyno CDLlau ar y Cyd, gan dynnu sylw at gyfleoedd i fod mor effeithlon a darbodus ag y bo modd wrth baratoi cynlluniau, ac at ba mor effeithiol yw canlyniadau sy'n seiliedig ar bolisïau ar gyfer cymunedau a busnesau.

Gwnaed y gwahoddiad hwnnw mewn ymateb i nifer o sylwadau a wnaed yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol (APB) lle cyfeiriodd yr awdurdodau lleol (ALlau) at y ffaith fod llai o gyllid, capasiti a phrofiad ar gael i adrannau cynllunio. Mae'r ffaith y bydd gan ALlau lai o adnoddau cynllunio – yn gyllid ac yn gapasiti – yn y dyfodol, yn cael effaith andwyol ar y gwaith o adolygu CDLlau a fabwysiadwyd. O'r herwydd, byddai cymryd y cam ychwanegol a mynd ati i baratoi CDLl ar y Cyd yn lle cydweithio yn unig yn golygu y byddai'r awdurdodau'n fwy abl i baratoi cynlluniau yn y ffordd orau bosibl, ac i sicrhau gwell canlyniadau ar draws ardaloedd daearyddol ehangach a chysylltiedig.

Siom o'r mwyaf oedd gweld, ar ôl y dyddiad cau ar 28 Chwefror, nad yw fy ngwahoddiad wedi cael ymateb cadarnhaol. Er hynny, mae'n galondid bod yr holl ymatebion a ddaeth i law yn nodi bod yr ALlau o'r farn fod ganddynt ddigon o adnoddau a chapasiti i adolygu eu CDLlau eu hunain ar eu pen eu hunain.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r sicrwydd a roddwyd gan yr ALlau fod digon o adnoddau ar gael iddynt fedru ymrwymo i adolygu'r cynllun ac i gadw at yr amserlenni drwy'r broses ar ei hyd, yn rhoi digon o hyder imi alluogi'r ALlau i fwrw ymlaen yn unigol â'r gwaith o adolygu'r CDLl.

Wedi dweud hynny, ac ar ôl cael sicrwydd mai dyna'r sefyllfa, byddaf yn disgwyl i'r Cytundebau Darparu ddod i law cyn pen 3 mis i ddyddiad y llythyr hwn, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fwlch cyn bod y cynllun newydd ar gael. Byddaf hefyd yn disgwyl i'r Cytundebau Darparu ddangos bod modd paratoi cynllun ymhen 3.5 mlynedd i'r adeg y bydd y broses yn dechrau'n ffurfiol, gan ganiatáu un cyfnod ychwanegol o 3 mis os bydd angen. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol. Gan fy mod wedi cael sicrwydd oddi wrth yr ALlau, dylwn ddweud yn gwbl glir na fyddaf yn ystyried caniatáu unrhyw estyniadau bellach i'r Cytundebau Darparu y tu hwnt i'r cytundeb cychwynnol ei hun.

Rwyf yn parhau o'r farn fod modd sicrhau gwell canlyniadau cynllunio drwy gydweithio. Fodd bynnag, mae ALlau yn mynnu y gellir cyflawni hynny drwy gydweithio'n well mewn ffordd nad yw'n mynd mor bell â pharatoi CDLlau ffurfiol ar y cyd. Rwyf wedi gofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio roi ystyriaeth arbennig i gydweithio ac i ganlyniadau cynllunio pan fyddant yn mynd ati i archwilio CDLlau.

Yn olaf, gallai diwygio llywodraeth leol effeithio ar y gwaith o baratoi'ch CDLl. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno i ddiwygio llywodraeth leol yn y dyfodol ac os na fydd eich CDLl wedi cyrraedd y cam adneuo (Rheoliad 17, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref) (Cynlluniau Datblygu Lleol) 2005 fel y'u diwygiwyd) bryd hynny, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'ch ALl ailddechrau ar y broses.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig